

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg,
Gofal Deintyddol Vale
View**

24 Chwefror 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	8
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	11
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	13
6.	Y Camau Nesaf.....	15
	Atodiad A.....	16

1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ofal Deintyddol Vale View, Canola, Sarn, Pen-y-bont ar Ogwr, CF32 9TY, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ar 23 Chwefror 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau'n bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*¹.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle

¹ Daeth *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru* i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o ganlyniad i arolygiadau deintyddol, a hynny trwy lythyr gofyn am sicrwydd ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A o'r adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Gofal Deintyddol Vale View yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Sarn, Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Darperir amrywiaeth o wasanaethau.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys un deintydd (sydd hefyd yn berchen ar y practis), un hylenydd, un nyrs a rheolwr practis. Ar adeg ein harolygiad roedd dwy nyrs o dan hyfforddiant hefyd yn gweithio yn y practis.

Mae Gofal Deintyddol Vale View yn bractis cymysg sy'n darparu triniaeth breifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG. Yn hyn o beth, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth, yn ddarostyngedig i ddarpariaeth Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

4. Crynodeb

Roedd AGIC yn archwilio sut roedd Gofal Deintyddol Vale View yn bodloni'r safonau gofal a geir yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: *Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.

Gwnaeth cleifion a oedd wedi cwblhau ein holiaduron nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn. Dywedodd cleifion wrthym hefyd eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Gwelsom staff yn dangos cwrteisi tuag at gleifion a'u trin mewn ffordd garedig. Roedd gwybodaeth berthnasol am y gwasanaethau roedd y practis yn eu cynnig o fewn cyrraedd hawdd cleifion. Fodd bynnag, nid oedd yr holl gleifion a wnaeth sylwadau'n gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth y tu allan i oriau pan oedd y practis ar gau.

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei reoli â'r bwriad o fodloni'r safonau. Fodd bynnag, wnaethom nodi bod angen rhywfaint o wella ar y cyfleusterau a oedd yn cael eu defnyddio i lanhau ac i sterileiddio offerynnau. Gwelsom hefyd fod angen gwella'r broses o gwblhau cofnodion deintyddol cleifion.

Roedd gan y practis reolwr a oedd yn gweithio'n agos gyda pherchennog y practis. Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch cleifion.

Roedd amgylchedd y practis, yn ôl pob golwg, wedi ei gynnal a'i gadw'n dda – y tu mewn a'r tu allan Fodd bynnag, rydym wedi argymhell y dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas er mwyn lleihau'r risg o niwed i staff wrth iddynt fynd i'r stordy allanol, a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer storio pethau.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Gwnaeth cleifion a oedd wedi cwblhau ein holiaduron nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn. Dywedodd cleifion wrthym hefyd eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Gwelsom staff yn dangos cwrteisi tuag at gleifion a'u trin mewn ffordd garedig. Roedd gwybodaeth berthnasol am y gwasanaethau roedd y practis yn eu cynnig o fewn cyrraedd hawdd cleifion. Fodd bynnag, nid oedd yr holl gleifion a wnaeth sylwadau'n gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth y tu allan i oriau pan oedd y practis ar gau.

Cawsom yr argraff bod y tîm o staff yn gyfeillgar ac yn groesawgar, ac fe'u gwelsom yn cynnig cymorth i gleifion sy'n dod i'r practis, a'u trin mewn ffordd garedig.

Gwnaethom wahodd cleifion a oedd yn mynychu'r practis ar ddiwrnod yr arolygiad i gwblhau holiaduron AGIC. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o chwe holiadur cyflawn. Dywedodd pob claf a oedd wedi gwneud sylwadau ei fod yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent wedi ei dderbyn gan y practis, ei fod wedi derbyn croeso mawr gan staff y practis, a'i fod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys:

'Maen nhw'n wych.'

'Gwych.'

"Ydw, rwy'n fodlon iawn [ar y gwasanaeth]."

Esboniodd rheolwr y practis fod arolwg boddhad cleifion yn cael ei gynnal ar adeg ein harolygiad, ac y byddai'r canlyniadau'n cael eu coladu cyn bo hir. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi darparu rhagor o ddeunydd darllen i gleifion ei ddarllen wrth iddynt aros i weld y deintydd neu'r hylenydd – o ganlyniad i'r sylwadau wedi'u derbyn eisoes. Dywedodd rheolwr y practis ei fod yn bwriadu cynnal arolwg boddhad cleifion bob chwe mis. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion ddulliau ar gyfer rhoi adborth a bod y practis wedi ystyried yr adborth hwn er mwyn gwneud gwelliannau.

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, a gwelsom fod y cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau ymlaen llaw neu mewn achos brys. Roedd hyn yn golygu y gall pobl fod yn hyderus, pe baent yn teimlo poen ddeintyddol, bod system ar

waith i sicrhau eu bod yn cael apwyntiad yn fuan. Roedd y system hon yn amlwg ar ddiwrnod ein harolygiad.

Ar y cyfan, dywedodd cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld. Dywedodd staff fod proses ar waith ar gyfer dweud wrth gleifion os yw eu deintydd yn rhedeg yn hwyr, neu'n absennol yn annisgwyl.

Gwelsom ddeunydd hyrwyddo iechyd wedi'i harddangos yn glir yn yr ystafell aros. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion wybodaeth berthnasol er mwyn iddynt ofalu am eu hylendid geneuol ac iechyd eu cegau eu hunain. Roedd sgrin fawr yn yr ystafell driniaeth ar y llawr daear. Dywedodd wrthym fod hyn yn cael ei defnyddio i ddangos sganiau pelydr-X a ffotograffau o ddannedd cleifion – â'r bwriad o roi gwell dealltwriaeth am yr esboniadau a'r cyngor a roddir gan y deintydd.

Nid oedd pob claf yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth y tu allan i oriau pan oedd y practis ar gau. Er bod y rhif ffôn wedi'i arddangos, a gellid ei weld o'r tu allan i'r practis, efallai y byddai'n syniad i berchennog y practis ymchwilio i ffyrdd eraill o roi'r wybodaeth hon i gleifion.

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg â'r bwriad o fodloni'r safonau.

Fodd bynnag, wnaethom nodi bod angen gwella'r cyfleusterau a oedd yn cael eu defnyddio i lanhau ac i sterileiddio offerynnau. Gwelsom hefyd fod angen gwella'r broses o gwblhau cofnodion deintyddol cleifion.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio'r offer radiograffeg mewn ffordd ddiogel. Roedd yr holl ddogfennaeth orfodol – gan gynnwys gwiriadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw a hyfforddiant staff – yn gyfredol ac ar gael i'w harchwilio. Roedd system sicrhau ansawdd ar waith ar gyfer sicrhau bod ansawdd sganiau pelydr-X cleifion yn cael eu graddoli a'u cofnodi.

Roedd gan y staff fynediad at offer dadebru a chyffuriau brys pe bai argyfwng cleifion (llewyg) yn y practis. Roedd cyfres o siartiau llif ar gael er mwyn llywio staff trwy'r camau priodol pe bai argyfwng claf yn cael ei nodi. Gwelsom dystysgrifau mewn ffeiliau staff a oedd yn dangos eu bod wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddelio ag achosion brys meddygol a sut i berfformio adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR). Roedd system ar waith er mwyn nodi cyffuriau mae eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio a phrynu rhai newydd yn ei lle, yn ogystal â gwirio cyfarpar brys. Rydym yn argymhell y dylai perchennog y practis ystyried rhoi system ar waith er mwyn fflagio dyddiad dod i ben cyffuriau fel sbardun, a chryfhau'r system bresennol. Cytunodd perchennog y practis i wneud hyn.

Roedd dogfennaeth gontract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus. Gwelsom fod gwastraff wedi cael ei ddioli a'i roi mewn bagiau/cynwysyddion o wahanol liwiau er mwyn dangos y dull cywir o gael gwared arno. Roedd gwastraff y practis yn cael ei storio'n ddiogel tra ei fod yn aros i gael ei gasglu.

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer dadheintio (glanhau a sterileiddio) yr offerynnau a ddefnyddir yn y practis, a chydymffurfiad â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05)².

Roedd arsylwi ar y broses ddadheintio'n cadarnhau bod proses addas ar waith ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau. Roedd gan y practis ystafell

²Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05) yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

ddadheintio ar wahân, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Dylai hyn, ynghyd â'r defnydd o brosesau rheoli addas, lleihau'r risg o groes-heintio rhwng offerynnau. Gwelsom fod yr offerynnau yn cael eu bagio'n briodol, ac yn cael eu stampio â dyddiad y prosesu, a'r dyddiad ar gyfer eu defnyddio, cyn iddynt gael eu storio. Roedd cofnodion o wiriadau wedi'u cynnal, ac roedd yr offer a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg. Er bod ystafell ar wahân ar gael, gwelsom fod angen ail-selio rhai asiadau rhwng yr wynebau gwaith, er mwyn atal mynediad hylifau a malurion a allai gynyddu'r risg o groes-heintio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i arolygu'r wynebau gwaith yn yr ystafell ddadheintio, a chymryd camau gweithredu addas er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cynnal gan ddefnyddio dull sy'n cyd-fynd yn benodol a Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Mae hyn yn caniatáu i dimau deintyddol i asesu eu harfer yn unol â'r polisi a'r gweithdrefnau sydd ynddo.

Roedd digon o gyfleusterau golchi dwylo a chyfarpar diogelu defnydd sengl er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol pob un o'r ystafelloedd triniaeth yn y practis. Gwelsom fod y rhain yn cynnwys yr offer perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff. Roedd trefniadau addas ar waith er mwyn diogelu preifatrwydd cleifion sy'n derbyn triniaeth. Gwelsom rai offerynnau wedi'u storio yn un o'r ystafelloedd triniaeth nad oeddent wedi'u gorchuddio. Er nad oedd angen sterileiddio'r offer hwn, gwnaethom argymhell y dylid gorchuddio'r rhain er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Cytunodd perchennog y practis i wneud hyn.

Roedd y practis yn defnyddio system cofnodion cleifion electronig. Ar y cyfan, roedd y sampl o gofnodion y gwnaethom edrych arni wedi'i chynnal yn dda, ac roeddent yn dangos bod gofal wedi cael ei gynllunio a'i ddarparu mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai meysydd roedd angen eu gwella. Yn benodol, roedd angen mwyn o ofal ar ran y deintydd

(perchennog y practis) wrth ddefnyddio'r swyddogaeth awto-nodiadau³ er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys ac yn gywir. Gwelsom hefyd fod angen gwelliannau o ran cofnodi nodiadau'n amserol, ac o ran cofnodi cyfiawnhad dros wneud sganiau pelydr-X. Gwnaethom hysbysu'r deintydd am ein canfyddiadau er mwyn iddo gymryd y camau gwella priodol ar gyfer yr uchod.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

³Mae awto-nodiadau yn dempledi ar gyfer nodiadau sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd. Gallant gynnwys nodiadau atgoffa neu destun wedi'i lenwi ymlaen llaw.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd gan y practis reolwr a oedd yn gweithio'n agos gyda pherchennog y practis. Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch cleifion.

Roedd rheolwr practis, a oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd ac yn gweithio'n agos gyda pherchen y practis. Roedd y practis yn dîm bach o staff a oedd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, yn ôl pob golwg. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n ymwybodol o'u gwahanol rolau a chyfrifoldebau. Gwelsom fod y practis yn cael ei reoli'n dda.

Gwnaeth rheolwr y practis gadarnhau bod yr holl staff clinigol wedi cael eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac roedd ganddynt yswiriant indemniad. Roedd deintydd y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat. Roedd ganddo dystysgrif gofrestru gyfredol gan AGIC, ac roedd hon wedi'u harddangos yn unol â'r rheoliadau perthnasol ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith er mwyn sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu'n ddiogel. Gwelsom nad oedd dyddiad ar bob polisi. Gwnaethom dynnu sylw perchennog y practis a'r rheolwr at y mater hwn fel y gellid cyflwyno system er mwyn dangos pryd roedd polisïau wedi cael eu cytuno neu eu hadolygu. Roedd disgwyl ar staff sy'n gweithio yn y practis lofnodi taflen i gadarnhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi. Gwelsom hefyd fod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd staff, â'r bwriad o atgyfnerthu dealltwriaeth staff ymhellach. Mae hyn yn arfer nodedig.

Roedd gwybodaeth addas ar gael i staff ynglŷn â Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH). Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid sicrhau bod gwybodaeth COSHH ar gael yn y mannau lle mae cemegau yn cael eu defnyddio'n aml, er mwyn i staff gael mynediad at wybodaeth yn amserol pe bai angen.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn cadarnhau bod staff perthnasol y practis wedi cael brechiadau rhag Hepatitis B. Roedd hyn yn golygu bod staff wedi cymryd camau priodol er mwyn sicrhau eu diogelwch a diogelwch cleifion yn hyn o beth.

Dyweddodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddi, a'u bod yn gallu lleisio unrhyw bryderon sydd ganddynt yn ymwneud â'r gwaith. Dywedodd staff wrthym hefyd fod cyfarfodydd practis yn cael eu cynnal bob wythnos, ac roeddent yn trafod testunau sy'n ymwneud â'u gwaith. Roedd

cofnodion o gyfarfodydd yn cadarnhau'r drefn hon. Gwnaethom argymhell y dylai perchennog y practis a'r rheolwr ehangu cwmpas y cyfarfodydd hyn er mwyn annog staff i drafod agweddau eraill ar y gwasanaeth yn ogystal â'r polisiâu a'r gweithdrefnau a oedd yn cael eu trafod eisoes. Gwnaethant gytuno i ymchwilio i hyn ymhellach.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu cael mynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swydd a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Gwnaethom edrych ar ffeiliau datblygiad proffesiynol pob aelod o staff, a gweld eu bod yn cofnodi tystiolaeth o'r hyfforddiant roeddent wedi'i fynychu er mwyn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn cael eu trin gan staff â'r sgiliau priodol a hyfforddiant cyfredol.

Gwnaethom edrych ar sampl o dystysgrifau gwaith cynnal a chadw. Gwnaeth y rhain gadarnhau bod yr offer yn cael ei archwilio'n rheolaidd. Felly, gallai staff a chleifion fod yn hyderus bod systemau ar waith i sicrhau bod offer yn cael ei archwilio a'i gadw a'i gynnal er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben.

Roedd y practis yn darparu triniaeth breifat a thriniaeth y GIG, ac roedd gweithdrefn ar waith er mwyn i'r cleifion leisio pryderon (cwynion). Ar y cyfan, roedd y weithdrefn yn bodloni'r trefniadau ar gyfer gofal a thriniaeth y GIG a gwaith preifat fel ei gilydd. Fodd bynnag, gwnaethom hysbysu rheolwr y practis am yr angen i newid yr amserlenni ar gyfer ymateb i gwynion am driniaeth breifat, er mwyn llawn gydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Roedd rhaid hefyd ddiweddarau manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gan eu bod yn hen.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn gyfredol.

Roedd gwybodaeth i gleifion ynglŷn â sut i leisio pryderon (cwynion) ar gael yn y practis. Fodd bynnag, dywedodd hanner y cleifion a oedd wedi cwblhau'r holiaduron (3) nad oeddent yn gwybod pa broses y dylid ei dilyn. Felly, efallai y dylai'r practis ymchwilio i sut y gellir gwella ymwybyddiaeth cleifion o'r weithdrefn hon.

Ansawdd yr Amgylchedd

Roedd amgylchedd y practis, yn ôl pob golwg, wedi ei gynnal a'i gadw'n dda – y tu mewn a'r tu allan. Fodd bynnag, rydym wedi argymhell y dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas er mwyn lleihau'r risg o niwed i staff wrth iddynt fynd i'r stordy allanol a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer storio gwastraff.

Mae Gofal Deintyddol Vale View yn bractis bach sy'n gweithredu o adeilad yn Sarn, Pen-y-bont ar Ogwr.

Roedd arwyddion clir at y practis, a oedd yn ei wneud yn hawdd ei gyrraedd o'r brif ffordd. Roedd maes parcio bach yn syth y tu ôl i'r practis y gallai cleifion ei ddefnyddio. Roedd lleoedd parcio ychwanegol ar gael yn y strydoedd ochr gerllaw. Roedd enw a chymwysterau'r deintydd, ynghyd ag oriau agor y practis wedi'u harddangos yn glir wrth fynedfa'r practis. Roedd y rhif ffôn brys hefyd wedi'i arddangos yn glir. Roedd hyn yn golygu bod cleifion a oedd yn dod i'r practis pan oedd ar gau'n cael eu cyfeirio at rif y gallent ei ffonio am gyngor pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys arnynt. Dywedwyd wrthym fod y rhif hwn hefyd ar gael ar neges peiriant ateb y practis.

Nid oedd mynedfa'r practis yn addas ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn am fod gris. Roedd canllawiau er mwyn rhoi cymorth i bobl sydd ag anawsterau symudedd. Dywedwyd wrthym y gallai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn gyrraedd y practis trwy'r fynedfa gefn – roedd angen trefnu hyn ymlaen llaw a derbyn cymorth gan staff.

Roedd y practis a ddau lawr. Roedd dwy ystafell driniaeth – un ar bob llawr. Roedd ystafell aros ar y ddau lawr, ac roedd y dderbynfa wedi'i chynnwys yn yr ystafell aros ar y llawr daear. Dywedwyd wrthym fod yr hylenydd yn defnyddio'r ystafell driniaeth ar y llawr daear, a bod y deintydd yn defnyddio'r ystafell driniaeth ar y llawr cyntaf. Yn ystod taith o gwmpas y practis, gwelsom fod y mannau hyn yn lân ac yn daclus – a bod y goleuadau a'r gwres yn addas a bod digon o awyr ffres. Roedd yr ystafelloedd aros yn fannau cyfforddus ar gyfer cleifion wrth iddynt aros i weld y deintydd neu'r hylenydd. Er bod yr ystafell aros ar y llawr cyntaf yn ddigon mawr yn ôl pob golwg, roedd yr ystafell ar y llawr daear i'w gweld yn fach o ystyried nifer y cleifion. Roedd tîm y practis eisoes wedi nodi hyn yn faes i'w wella a fydd yn cael ei ystyried fel rhan o unrhyw gynlluniau datblygu ar gyfer y practis yn y dyfodol.

Roedd gan y practis dai bach ar gyfer staff a chleifion. Roedd tŷ bach y cleifion ar y llawr cyntaf a oedd yn golygu nad oedd yn addas ar gyfer pobl sydd ag anawsterau symudedd sylweddol, na phobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Roedd y ddau dŷ bach yn lân ac ynddynt gyfleusterau golchi dwylo addas er mwyn atal croes-heintio.

Yn ôl pob golwg, roedd adeilad y practis wedi ei gynnal a'i gadw'n foddhaol – y tu mewn a'r tu allan. Fodd bynnag, roedd angen tacluso'r stordy allanol, a oedd yn cael ei ddefnyddio i storio gwastraff (clinigol a gwastraff nad yw'n beryglus), er mwyn lleihau'r risg o niwed i staff sy'n mynd i'r adeilad. Dywedwyd wrthym fod gwastraff nad yw'n beryglus yn cael ei storio mewn bagiau ar lawr y stordy allanol, a allai gynyddu'r risg o fermin. Felly, gwnaethom argymhell y dylai perchennog y practis a'r rheolwr wneud trefniadau addas er mwyn lleihau'r risg o niwed i staff a lleihau'r risg o fermin. Gwnaeth y ddau ohonynt gytuno i ymchwilio i ffyrdd o wneud hyn a'u rhoi ar waith.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas er mwyn lleihau'r risg o niwed i staff wrth iddynt fynd i'r stordy allanol. Yn ogystal, dylid gwneud trefniadau er mwyn storio gwastraff mewn ffordd sy'n lleihau'r risg o bresenoldeb fermin yn yr adeilad.

Roedd mesurau diogelwch ar waith i atal mynediad i'r adeilad heb awdurdod. Roedd allanfeydd tân wedi'u nodi'n glir ar gyfer cleifion a staff, ac roedd labeli cynnal a chadw yn dangos bod y diffoddwyr tân wedi cael eu harchwilio o fewn y 12 mis diwethaf.

6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran cyflawni *Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*, rheolaeth ac arweinyddiaeth, ac ansawdd yr amgylchedd. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Gofal Deintyddol Vale View yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Unwaith y cytunir ar y cynllun gwella, fe gaiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Gofal Deintyddol Vale View

Dyddiad yr Arolygiad: 24 Chwefror 2015

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Profiad y Claf			
	-			
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru			
9	Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i arolygu'r wynebau gwaith yn yr ystafell ddadheintio, a chymryd camau gweithredu addas er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.	<ul style="list-style-type: none">○ Mae'r asiadau rhwng y wynebau gwaith yn yr ystafell ddadheintio wedi cael eu hail-selio â silicon er mwyn atal mynediad hylifau neu falurion a lleihau'r risg o groes-heintio.○ Ymhellach mae system goleuadau traffig wedi cael ei chyflwyno er mwyn gwahaniaethu rhwng y manau budr a'r manau glân hynny.	Christian Hoes	Cwblhawyd/gwelliannau parhaus

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
10	Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.	<ul style="list-style-type: none"> ○ Rwyf wedi darllen safonau FGDP (Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol) ar gyfer Archwilio Clinigol a Chadw Cofnodion, ac wedi addasu priodweddau fy awto-nodiadau i rywbeth tebycach i format cwestiynau er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys ac yn gywir. ○ Byddaf yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod cofnodion mor gyfoes ac mor gywir ag sy'n gorfforol bosibl. 	Christian Hoes	Cwblhawyd/gwelliannau parhaus
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
12	Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn gyfredol.	<ul style="list-style-type: none"> ○ Bydd manylion cyswllt AGIC yn cael eu hadolygu'n chwarterol i sicrhau eu bod yn gyfredol. 	Christian Hoes	Cwblhawyd/gwelliannau parhaus
Ansawdd yr Amgylchedd				
14	Dylai perchennog y practis wneud trefniadau	<ul style="list-style-type: none"> ○ Rwyf wedi prynu biniau diogel ar gyfer 	Christian Hoes	Cwblhawyd/gw

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	addas er mwyn lleihau'r risg o niwed i staff wrth iddynt fynd i'r stordy allanol. Yn ogystal, dylid gwneud trefniadau ychwanegol er mwyn storio gwastraff mewn ffordd sy'n lleihau'r risg o bresenoldeb fermin yn yr adeilad.	<p>storio gwastraff cartref fel na fydd gwastraff domestig yn cael ei storio yn y stordy allanol ac na fydd yn rhaid i staff mynd i'r adeilad hwnnw.</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Mae'r adeilad ei hun wedi cael ei lanhau o'r holl wastraff – ac wedi cael ei jet-olchi a'i gloi. 		elliannau parhaus

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (wedi'i brintio): Christian Hoes.....

Teitl: Deintydd (Perchennog y Practis).....

Llofnod: [Cyflwynwyd yn electronig].....

Dyddiad: 31/03/2015.....